2016
2017

# Adolygiad Blynyddol Trwyddedu Teledu

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU
www.tvlicensing.co.uk



# BETH RYDYM NI'N EI WNEUD

Mae Trwyddedu Teledu yn helpu pobl i ddeall pryd mae angen trwydded, mae'n sicrhau bod gan wylwyr drwydded gywir, ac mae'n casglu'r ffi yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, i ennill cymaint o incwm â phosibl i raglenni a gwasanaethau'r BBC. Yn 2016/17, casglom fwy o refeniw nag erioed o'r blaen. Rydym ni wedi cadw cyfraddau osgoi talu yn sefydlog ar lefel isel o rhwng 6% neu 7%, ac mae cwynion wedi gostwng 50% ers 2010/11.

## Nifer y trwyddedau



Mae **25.8m** o drwyddedau'n weithredol *mwy nag erioed o'r blaen.*

Mae 25.8m o drwyddedau'n weithredol - mwy nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn sgil nifer o ffactorau, gan gynnwys poblogrwydd parhaus teledu byw, nifer cynyddol y cartrefi ledled y DU, a'r newid yn y gyfraith sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cael trwydded ar gyfer rhaglenni'r BBC ar iPlayer.

**Mae nifer y trwyddedau teledu mewn grym yn parhau i gynyddu:**

| 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25.0m | 25.1m | 25.2m | 25.3m | 25.4m | 25.5m | 25.6m | 25.8m |

O 1 Ebrill 2017, mae pob ad-daliad yn fisol *nid* chwarterol

## Cost casglu trwydded deledu*

£46.2m – Costau casglu: canolfannau galw, swyddogion, darganfod a gwasanaethau

£13.6m – Postio

£14.9m – Cyfathrebiadau: llythyrau atgoffa ac ymgyrchoedd gwybodaeth

£2.0m – Gweinyddiaeth a rheoli contractau

£1.8m – Dibrisiant systemau newydd

£3.7m – Newidiadau i ffi'r drwydded, gan gynnwys BBC iPlayer

Cyfanswm y costau casglu = **£82.2m**

*Effaith addasu cyfrifyddu oedd lleihau costau casglu gan £19.8m.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio i sicrhau bod cyfraddau osgoi talu yn parhau'n isel – **mae cynnydd o 1% yn y gyfradd osgoi talu yn werth £40m mewn refeniw coll** neu 10 o orsafoedd radio lleol y BBC

## Cynnal cyfraddau osgoi talu isel

Mae'r gyfradd osgoi talu trwydded deledu yn **6% neu 7%***

Mae gan rhwng 93 a 94% *o gyfeiriadau* **drwydded gywir**

Rydym ni'n ymweld ag eiddo didrwydded sydd heb ymateb i'n hymdrechion i gysylltu â nhw. Ar gyfartaledd, rydym ni'n dal mwy na **700 o bobl sy'n osgoi talu, bob dydd**

**Eleni, fe wnaethom ddal 256,600** o bobl yn gwylio teledu heb drwydded. Mae oddeutu 50% o'r holl ymweliadau'n digwydd rhwng 4pm a 9pm, neu ar benwythnosau.

*Gellir amcangyfrif osgoi talu trwydded deledu o fewn amrediad yn unig, oherwydd amcangyfrifon yw rhai o'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo. Nid yw newidiadau sy'n llai nag 1% yn arwyddocaol yn ystadegol.

## Incwm a gynhyrchwyd

Yn 2016/17, roedd incwm o ffi'r drwydded yn **£3,787m** (bron £3.8bn)

*a oedd yn gynnydd o* **£44m** ar y flwyddyn flaenorol

## Y gyfraith ac iPlayer


Newidiodd y gyfraith ar 1 Medi 2016. Nawr, mae angen trwydded i wylio neu lawrlwytho rhaglenni'r BBC ar alw – gan gynnwys teledu dal i fyny ar iPlayer y BBC. Mae hyn wedi arwain at:

**77,000 - 83,000** o werthiannau ychwanegol

ac **£11-12m** o incwm

## Helpu pobl i barhau'n drwyddedig

Eleni, gweithiom gyda **480** o sefydliadau cyngor ar arian a sefydliadau cymunedol ledled y wlad, mor bell i'r gogledd ag Ynys Lewis, ac i Arfordir y De, i sicrhau bod gan y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded wybodaeth ynghylch pryd mae angen trwydded, consesiynau, a lledaenu cost taliadau.



## Sut mae cwsmeriaid yn talu

Rydym ni'n deall efallai nad yw ein cwsmeriaid eisiau talu'r ffi gyfan ar y tro, felly rydym ni'n cynnig nifer o ffyrdd i ledaenu'r gost. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun talu wythnosol neu ddebyd uniongyrchol misol, felly gall cwsmeriaid ddewis y cynllun talu sy'n addas iddyn nhw.

| Dull talu | Canran |
|---|---|
| Swyddfa'r Post | 0.1% |
| Bancio ar-lein | 0.2% |
| Cerdyn cynilion | 1.4% |
| Siec drwy'r post | 2.2% |
| PayPoint | 3.9% |
| Cerdyn talu | 7.2% |
| Cerdyn credyd/debyd | 11% |
| Debyd uniongyrchol | 74% |

(Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)

## Trwyddedu Teledu ar-lein

Roedd oddeutu 27m o ymweliadau â'n gwefan – cynnydd o **35%** ar y flwyddyn flaenorol – ac **8m** o drafodion (prynu neu adnewyddu trwyddedd, newid manylion neu geisio gwybodaeth).

Prynwyd **63%** o drwyddedau newydd ar-lein

Roedd **58%** o'r ymweliadau â'r wefan o ffonau symudol a llechi, sef cynnydd o chwarter o'r flwyddyn flaenorol.

Mae **7.5m** o bobl bellach yn derbyn eu trwydded deledu mewn neges e-bost.

**I ddarganfod sut gwariwyd ffi'r drwydded yn 2016/17, ewch i wefan y BBC.**

Cliciwch yma i ddarllen y ddogfen hon yn Saesneg (English).

Dilynwch ni ar Twitter **@TVLicensingNews**

Dewch o hyd i ni ar YouTube ar **youtube.com/tvlicensing**

Gallwch weld delweddau a graffeg Trwyddedu Teledu ar Flickr **www.flickr.com/photos/tvlicensing**

TV LICENSING

I gael mwy o wybodaeth ar Drwyddedu Teledu, ewch i **www.tvlicensing.co.uk**